

O'R GROES ...

TAIR CROES REMBRANDT

'Roedd y bobl yno'n gwyllo'r cwbl...'

Mae gan Rembrandt ddarlun o'r enw 'Y Tair Croes.'

Wrth edrych ar y darlun, y groes lle bu'r Iesu farw arni, yw'r canolbwynt. O dan y groes mae'r dyrfa, gymysglyd eu teimladau, a'u hemosiynau.

Ar waelod y darlun, ar y dde mae cysgod, ac yn y cysgod, medda nhw, mae Rembrandt ei hun. 'Roedd o yno am ei fod yn ymwybodol iawn, fod ei bechodau wedi helpu i roi'r hoelion yng nghnawd Crist.

'Rydym ninnau yno yng ngwaelod y darlun hefo Rembrandt hefyd, yn debyg iawn i'r dyrfa gymysglyd, ac yn sefyll yn gwyllo. Wrth inni glywed y geiriau oddi ar y groes 'O Dad maddau iddynt' mor braf ydyw gwybod fod hynny yn ein cynnwys ni. Cawn gyfle felly i syllu ar y 'person rhyfedd hwn' hefo Rembrandt.

Yn wahanol i'r dyrfa fe wyddom ni ddiwedd y stori.

Ar y groes mae Duw yng Nghrist wedi cymodi'r byd ag ef ei hun; gorchfygwyd pŵerau drwg, nerthoedd angau a Satan, a dangosodd Duw ei gariad tuag atom.

Ond oeddwn am foment i weld pwy yw ein cwmni wrth y groes.

Y MILWYR

Mae'r rhain yma am mai eu dyletswydd oedd croeshoelio pobl. Ac roeddan nhw wedi ei wneud lawer gwaith o'r blaen. Doedd y rhain ddim yn gallu cydymdeimlo a'r rhai oedd ar y groes. Roedden nhw'n gamblio am ddillad Crist, yn ei wawdio hefo'r bobl, iddo daflu ei hun i lawr, a chael sbort ymysg ei gilydd.

Ond roedd yno un oedd yn wahanol. Sylweddolodd pwy oedd Iesu Grist, ac wedi iddo farw dechreuodd ogoneddu Duw, a dweud 'Mab Duw oedd y dyn yma reit siŵr.'

Fyddai ei fywyd byth yr un fath ar ôl hyn, a gwyddai fel y troseddwr ar y groes, fod lle iddo yntau ym Mharadwys.

Mae'r groes yn ffolineb i rai, ac yn dramgwydd i eraill, ond braf yw cael dweud o waelod y darlun 'Yng nghroes Crist y gorfoleddaf.'

MAIR MAGDALEN

Un, o Magdala, oedd hi, a saith cythraul ynddi, cyn cael gwellhad gan Iesu Grist, a maddeuant pechodau.



Tair Croes, Rembrandt, 1653 wikimedia

Gwêl ar y croesbren acw gyfiawnder mawr y ne', doethineb a thrugaredd yn gorwedd mewn un lle, a chariad anfesurol yn awr i gyd yn un fel afon fawr, lifeiriol yn rhedeg at y dyn.

William Williams, Pantycelyn

Golchodd ei draed yn nhŷ Simon y Pharisead, eu sychu a gwallt ei phen a'u heneinio a phersawr drud.

Dilynodd Iesu a'i ddisgyblion, a gweini arnynt, ac mae hi'n ei ddilyn i'r groes, hefyd. Gallodd ddweud 'O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi' ac o'r gornel heddiw gallwn ninnau ddweud yr un peth am iddo ein caru ninnau i'r eithaf.

SALOME

Chwaer Mair, mam Iesu oedd hon, a wnaeth gais iddo wneud ffafriaeth â'i meibion hi.

Yr ateb gafodd hi oedd, 'Ni wyddoch beth yr ydych yn ei ofyn, a allwch chwi yfed y cwpan yr wyf fi yn ei yfed?'

Yma wrth y groes mae hi'n sylweddoli ystyr y geiriau rheiny, fod rhaid i bawb sydd am ei ddilyn, wynebu caledi. Ac o'r cysgod y sylweddolwn ninnau, fod dilyn Iesu Grist yn golygu caledi, gwatwar, gwrthod, ac ymwadu â ni ein hunain, a chodi'r groes. Ond 'mae gwaed y groes yn codi'r eiddil yn goncwerwr mawr.'

MAIR EI FAM

Mae hi yno am mai ei fam oedd hi, ac i wireddu proffwydoliaeth Simeon, y byddai ei henaid yn cael ei drywanu. Mae hi'n dioddef hefo fo, ond mae o'n gofalu amdani wrth ddweud ynghanol ei ddioddefaint wrth loan am edrych ar ei hôl.

'Rydym ninnau yn gweld ac yn gwybod ei fod o'n gofalu amdanom ninnau hefyd. Do fe 'weddiodd am faddeuant, maddau i MI ar y groes.'

IOAN Y DISGYBL ANNWYL

Mae loan yno am ei fod wedi ffoi o'r ardd hefo'r disgyblion eraill, ac efallai yn teimlo'n euog. Mae o yma i gyffesu, wrth droed y groes, ac yn cael cadarnhad, o faddeuant, wrth gael cais i ofalu am Mair.

Mae Iesu Grist yn maddau i ninnau hefyd, wrth i ni sefyll yno'n cyffesu ein pechodau 'y dieuog yn marw dros yr euog, y cyfiawn dros yr anghyfiawn.' Ac o'r cysgodion dywedwn 'dwed i mi ai fi oedd hwnnw, gofiodd cariad rhad mor fawr.'

Wrth gwrs fi oedd hwnnw, a phawb arall sy'n credu.

Olwen Williams (Parch), Tudweiliog

(Wedi ei addasu o'r anerchiad a draddodwyd wrth Fwrdd y Cymun yng Nghymdeithasfa'r Gogledd yn Hydref 2016)

...AC I'R ATGYFODIAD

Gweld ac Adnabod yr Iesu

A ninnau ar drothwy'r Pasg unwaith eto deun wyneb yn wyneb a llawnder cariad Duw tuag atom. Yn yr efengylau cawn ddisgrifiadau byw o'r berthynas rhwng yr Iesu a'i ddisgyblion adeg yr Atgyfodiad o'r bedd ac ymateb y disgyblion tuag ato. Yn ystod ei weinidogaeth fer yng Ngalailea aeth yr Iesu ati i barato'r disgyblion ar gyfer wynebu'r Groes gan ragfynegi ei farwolaeth a'i atgyfodiad, a gwnaeth hynny deirgwaith. Yn ddiaw roedd hynny'n drobwynt hynod yn y berthynas rhyngddo a'i ddisgyblion. Cynyddodd eu hancicrwydd a'u hamheuaeth oherwydd eu hannealltwriaeth o'u perthynas a'r gŵr y bu iddynt roi o'u hamser i'w ddilyn. Ac



yntau ar ei daith i Jerwsalem i wynebu'r Groes dywed Luc am y sefyllfa: 'Nid oeddent hwy yn deall dim o hyn; yr oedd y peth hwn wedi ei guddio rhagddynt a'i eiriau y tu hwnt i'w hamgyffred.' Disgwylent am ddyfodiad y Meseia i ryddhau'r

genedl o hualau grym Rhufain 'ac adfer y deyrnas i Israel'. Tebyg oedd ymateb y ddau ddisgybl ar y ffordd i Emaus yng nghwmni'r Iesu yng ngwyll y dydd. Oherwydd eu diffyg gweledigaeth ni allent ddygymod â realiti presenoldeb yr Iesu eilwaith yn y cnawd nes iddynt ei weld yn torri'r bara pryd yr agorodd bywyd newydd yn eu hadnabyddiaeth ohono. Y pryd hwnnw daethant yn ymwybodol o berson yr Iesu yn ail-ymddangos yn eu cwmni a hwythau'n canfod yr Iachawdwr wedi'r goncwest ar Galfaria. Ac felly y bu yn hanes Mair Magdalen, hithau hefyd yn analluog i adnabod yr Iesu yn yr ardd; gwraig oedd yn gorfod deffro o'i methiant i'w

ymgyfeillachu o'r newydd ag Ef nes iddo ei galw wrth ei henw. Ei datganiad i'w frodyr oedd 'Yr wyf wedi gweld yr Arglwydd', un o'r datganiadau mwyaf trawiadol yn y Testament Newydd, a ddangosodd ei hadnabyddiaeth lwyd ohono, a hynny o'r newydd. Esiaml o gryfder ei hargyhoeddiad oedd hynny fod ganddi rywbeth gwerth ei ddweud am ei Hiachawdwr.

Onid ein hadnabyddiaeth o'r Iesu ganrifoedd wedi ei Atgyfodiad a ddaw â ni'n nes ato? Dod â llawenydd o'r newydd i fywyd y disgyblion wnaeth yr Iesu yn yr Oruwch Ystafell; datgloi drysau anobaith a rhoi iddynt fywyd o'r newydd drwy'r Ysbryd Glân. Ai drysau cloëdig wedi eu hagor a rydd inni fywyd o'r newydd a'n galluogi i ganfod yr Iesu o'r newydd ac i ddatgan ein hadnabyddiaeth ohono yng ngoleuni arweiniad a gobaith yr Ysbryd hwnnw?

Mewn dyddiau o dywyllwch ac ansicrwydd mewn sawl rhan o'r byd heddiw, lle mae cymaint o anghrediniaeth, profiadau sigledig, chwerw a phetrusgar, boed inni ddod unwaith eto i'r ardd gyda'n gilydd y Pasg hwn i wrando ar yr Iachawdwr yn ein galw a rhoi i ni'r hyder i gyhoeddi ein bod wedi ei weld a'i adnabod o'r newydd. Boed i Ysbryd ein Harglwydd ein bendithio wrth inni, eleni eto, gofio'r dioddefaint, yr aberth a'r fuddugoliaeth a gaed ar Galfaria a mynegi'n diolch am ei gariad annherfynol.

John Gwynfor Jones
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU – HYFFORDDIANT MEWN SWYDD

Beth ydi EGLWYS IACH?



**Sut mae symud o fan hyn i fan yma?
Be sy angen ei wneud yn wahanol yn fy eglwys i?
Beth sy'n digwydd wrth i chi fentro?**

Sesiwn ymarferol i weinidogion, blaenoriaid ac arweinwyr eglwysig i ystyried a chynllunio y ffordd ymlaen i'ch eglwys chi. Yn seiliedig ar y gyfrol Gymraeg newydd 'Lawlyfr Creu a Chynnal Eglwys Iach'

Arweinwyr: Parch Catrin Roberts (Pontyberem)
a'r Parch Rhys Llwyd (Caernarfon)

**Coleg y Bala LL23 7RY,
Dydd Iau, Mai 4ydd 2017
10.00 am – 4.00 pm**

Cymraeg fydd iaith y sesiwn. Mae'r cwrs yn agored i weithwyr o bob enwad. Darperir cyswllt Skype os oes galw

Cynnwys y diwrnod:

Yn ddefnyddol bydd gweinidogion yn dod ag un neu ddau o flaenoriaid efo nhw, i gychwyn trafodaeth ynglyn â'r ffordd gorau i symud eich eglwys chi ymlaen.

Cost: Mae'r cwrs, yn cynnwys cinio, am ddim, **ond rhaid archebu lle erbyn 24ain Ebrill**. Am wybodaeth bellach, i gofrestru ar gyfer Skype neu i gadw lle, anfonwch eich enw a manylion cyswllt i Delyth Oswy-Shaw, Cyd-lynydd Hyfforddiant delyth@ebcpcw.org.uk / Y Coleg Gwyn, 6-8 Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd LL57 2EH / 01248 370463.

CALENDR Y GOLEUAD

Ysgol Haf Y Weinidogaeth Iachau. 26-29 Mehefin 2017, Cefn Lea, Drenewydd, Powys. Cysyllter â Nerys Rowlands 01678 530 407 neu nerysrowlands@hotmail.co.uk

Eglwys Bresbyteraidd Taiwan Cenhadaeth Taiwan 2017

'Hyfforddiant mewn Cenhadaeth – cyfle i bobl ifanc ddysgu a byw allan eu ffydd, a'u herio i roi eu hunain i Dduw trwy ymwneud â chenhadaeth.'

I ieuencid/oedolion ifanc (16–35 mlwydd oed)

Dyddiadau:

*Mehefin 28–Gorffennaf 15, 2017
Dyddiad olaf cofrestru: Mai 2, 2017*

Am fwy o wybodaeth a ffurflen gofrestru, cysylltwch â Meryl Walters yng Ngholeg y Bala ar 01678 520565

Ymwelwch â gwefan
Eglwys Bresbyteraidd Cymru:
www.ebcpcw.org.uk